

YN YMCHWILIAD COVID-19 Y DU

Gerbron y Gwir Anrhydeddus Farwnes Hallett D.B.E.

MODIWL 4

DATGANIAD AGORIADOL MODIWL 4 LLYWODRAETH CYMRU

Cyflwyniad

1. Ym Modwl 4, bydd yr Ymchwiliad yn ystyried ystod o faterion yn ymwneud â datblygu brechlynnau Covid-19 a gweithredu'r rhaglen ar gyfer cyflwyno brechlynnau ar draws y pedair gwlad, ynghyd â datblygu meddyginiaethau newydd a meddyginiaethau a oedd eisoes yn bodoli i drin Covid-19, a'r treialon a'r camau a gynhaliwyd i alluogi eu defnyddio.
2. Gan ddechrau ar 8 Rhagfyr 2020, llwyddodd y rhaglen frechu yng Nghymru i ddarparu brechlynnau Covid-19 yn gyflym i'r rhai oedd eu hangen. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd i gael cyflenwadau o'r brechlyn. Roedd ymysg y gwledydd cyntaf i ddechrau cyflwyno'r brechlyn i'w phoblogaeth. Fel yr eglurodd y Prif Weinidog ar y pryd, Mark Drakeford:-

“Roedd cyflwyno'r brechlyn yng Nghymru yn llwyddiant oherwydd ymdrechion ac ymrwymiad eithriadol pobl Cymru, y rhai yn y Gwasanaethau Iechyd a weithiodd yn ddiflino i weinyddu'r brechlynnau, y rhai yn y fyddin a gefnogodd y broses gyflwyno gychwynnol ac, wrth gwrs, y rhai a ddaeth ymlaen i gael eu brechu.”¹

3. Erbyn 8am ar 27 Rhagfyr 2020, roedd 35,335 o frechiadau wedi'u gweinyddu gan fyrdau iechyd lleol Cymru². Erbyn 16 Chwefror 2021, roedd dros 780,000 o bobl yng Nghymru wedi cael eu dos cyntaf o'r brechlyn³. Erbyn 9 Mawrth 2021, roedd nifer y bobl a oedd wedi'u brechu wedi cynyddu i un miliwn o bobl⁴. Roedd hyn yn golygu bod cyfran uwch o'r boblogaeth wedi cael ei brechu yng Nghymru nag yn y tair gwlad arall yn y Deyrnas Unedig. Yn fuan wedyn, adroddwyd mai Cymru oedd â'r drydedd gyfradd frechu uchaf yn

¹ Cyfieithiad o baragraff 3, Datganiad Tyst Mark Drakeford M4 – INQ000474420.

² INQ000350144.

³ INQ000057770.

⁴ Gething (datganiad Modiwl 4), paragraff 283 – INQ000493687.

y byd, y tu ôl i'r Emiradau Arabaidd Unedig ac Israel⁵. Erbyn 2 Gorffennaf 2021, roedd pob oedolyn a oedd yn weddill wedi cael cynnig brechiad ac, erbyn 22 Gorffennaf 2021, roedd 90.1% o oedolion wedi cael eu dos cyntaf, tra oedd 78.8% wedi cael eu hail ddos, sef dros ddwy miliwn o bobl⁶. Ers hynny, mae adroddiadau wedi cadarnhau bod nifer y bobl a oedd heb gael dos llawn o'r brechlyn yng Nghymru, erbyn 1 Mehefin 2022, yn sylweddol is nag yn y tair gwlad arall (32.8% yng Nghymru, o gymharu â 49.8% (Gogledd Iwerddon), 45.8% (Lloegr) a 34.2% (Yr Alban)⁷).

4. Cydnabu Llywodraeth Cymru fod gweithredu'r rhaglen frechu'n llwyddiannus yn hanfodol i ddatgloi cymunedau ac adfer bywydau pobl yng Nghymru. Er bod ymyriadau anfferyllol wedi'u gweithredu'n llwyddiannus gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu dinasyddion Cymru yn ystod cyfnod cyntaf y pandemig, bu'n rhaid cydbwysu effaith barhaus y cyfyngiadau hyn ar bobl, eu bywydau a'u bywoliaethau â'r angen i ddiogelu iechyd a llesiant y genedl. Yr angen i ddatblygu a chyflwyno'r rhaglen frechu'n gyflym, yn effeithlon ac yn effeithiol (fel y dangosir yn y ffigurau uchod) oedd y sylfaen a alluogodd Lywodraeth Cymru i lacio ymyriadau anfferyllol, adfer cymdeithas i sefyllfa fwy arferol a lliniaru effaith y cyfyngiadau cynnar hynny - cyfyngiadau symud yn arbennig - ar gymdeithas gyfan, ond yn bennaf oll ar y rhai agored i niwed a phobl ifanc.

Strwythurau a swyddogaethau gwneud penderfyniadau

5. Fel y mae'r Ymchwiliad yn ymwybodol, mae gofal iechyd yn swyddogaeth ddatganoledig yng Nghymru, a hynny ers 1999. Fodd bynnag, mewn perthynas â brechlynnau a therapiwteg, mae'r sefyllfa ychydig yn wahanol gan fod rhai swyddogaethau yn rhai a gedwir yn ôl yn Llywodraeth y DU.
6. Mae rheoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, meddyginiaethau, brechlynnau a'u hawdurdodi, a thaliadau niwed trwy frechiad i gyd yn faterion y mae cymhwysedd deddfwriaethol mewn cysylltiad â hwy yn cael ei gadw'n ôl yn Llywodraeth y DU.
7. Yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd yw'r rheoleiddiwr ar gyfer meddyginiaethau, dyfeisiau meddygol a chfansoddion gwaed ar gyfer trallwysu yn y DU, gan gynnwys yr holl frechlynnau a therapiwteg berthnasol mewn cysylltiad â

⁵ INQ000492870.

⁶ INQ000057896.

⁷ INQ000410152.

Covid-19. Rheoleiddwyr meddyginiaethau sydd hefyd yn gyfrifol am wylidwriaeth ffarmacolegol, a'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd sy'n cyflawni'r swyddogaeth honno ar ran y DU gyfan. Er nad oedd gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb am faterion o'r fath, roedd y berthynas waith dda a oedd eisoes yn bodoli rhwng yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd ac uwch swyddogion Llywodraeth Cymru, yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn ymwneud ag awdurdodi brechlynnau a therapiwteg ar gyfer Covid-19.

8. Ar wahân i'r materion hynny a gedwir yn ôl y mae'r swyddogaethau hynny y datganolwyd cyfrifoldeb amdanynt, ond y gwnaed penderfyniad mewn cysylltiad â hwy i gytuno i Lywodraeth y DU arfer y pwerau hynny ar ran Llywodraeth Cymru, yn unol ag adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Enghraifft allweddol o hyn yw caffael brechlynnau Covid-19, a arweiniwyd gan Dasglu Brechlynnau Llywodraeth y DU ar ran y pedair gwlad. Wrth gytuno i hynny, dewisodd Llywodraeth Cymru ganiatáu i'w chyfran ganlyniadol o gyllid brechlynnau aros gyda Thrysorlys y DU, a gwarantwyd cyfran Barnett o gyflenwadau'r brechlynnau i Gymru.⁸ Ystyrir y mater hwn ymhellach isod.
9. Mae'r Ymchwiliad eisoes wedi clywed tystiolaeth fanwl am strwythur a llywodraethiant y GIG yng Nghymru. Mae'r GIG yng Nghymru yn cynnwys saith bwrdd iechyd lleol, tair ymddiriedolaeth GIG a dau awdurdod iechyd arbennig. Mae pob bwrdd iechyd lleol yn gyfrifol yn gyfreithiol ac yn weithredol am wasanaethau gofal iechyd mewn perthynas â rhan benodol o Gymru, tra mae ymddiriedolaethau'r GIG ac awdurdodau iechyd arbennig yn darparu gwasanaethau penodol ar sail Cymru gyfan. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau strategol, cynllunio hirdymor a datblygu polisi, a gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo cyrff y GIG i arfer swyddogaethau mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru.
10. Sefydlwyd Rhaglen Frechu Covid-19 Llywodraeth Cymru o dan swyddfa'r Prif Swyddog Meddygol, ochr yn ochr â rhaglenni brechu a oedd eisoes yn bodoli. Roedd Prif Berchennog Cyfrifol y Rhaglen yn adrodd i'r Prif Swyddog Meddygol ac i Gyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

⁸ Er enghraifft, Gething (datganiad Modiwl 4), paragraffau 55, 67-74, 82-86 a 204-224 - INQ000493687.

11. Y saith bwrdd iechyd lleol yng Nghymru oedd yn gyfrifol am roi'r rhaglen frechu ar waith. Roedd gan bob bwrdd iechyd lleol Brif Berchennog Cyfrifol ar gyfer Brechiadau Covid-19, gan fod yn gyfrifol am gynllunio a darparu brechiadau Covid-19 yn yr ardaloedd a wasanaethir ganddynt. Roedd y Prif Berchennog Cyfrifol ar gyfer Brechiadau Covid-19 ym mhob bwrdd iechyd lleol hefyd yn cymryd rhan yn strwythur llywodraethiant Rhaglen Frechu Covid-19 ac yn gweithio gyda'r Prif Swyddog Fferyllol ar logisteg brechlynnau, Prif Swyddog Gweithredu'r Rhaglen Frechu ar faterion gweithredol a'r Dirprwy Brif Swyddog Meddygol ar faterion clinigol. Roedd yn ofynnol i'r byrddau iechyd lleol ddarparu manylion trefniadau gweithio (gan gynnwys ystyriaethau clinigol, gweithredol, technegol a logistaidd) a fyddai ar waith i gyflawni rhaglen o frechiadau Covid-19. Roedd cynlluniau o'r fath yn cael eu hadolygu yn nhrefniadau cynllunio'r GIG yng Nghymru ar gyfer argyfyngau a chan Fwrdd Brechu Covid-19 Cymru.

12. Ym mis Mehefin 2020, sefydlwyd y Bwrdd hwn i ddarparu fforwm i Lywodraeth Cymru, partneriaid o'r GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru a rhanddeiliaid eraill ddatblygu, cynllunio a gweithredu'r broses o ddarparu brechiadau Covid-19 yng Nghymru. Yn ddiweddarach, datblygodd i fod yn Fwrdd Cyflawni Rhaglen Frechu Covid-19 Cymru, gyda Fforwm Rhanddeiliaid ar wahân. Y Bwrdd, ym mhob achos, oedd y prif grŵp gwneud penderfyniadau mewn cysylltiad â gweithredu'r Rhaglen Frechu, gan gael cyngor gan grwpiau eraill o fewn y strwythur llywodraethiant a rhoi cyngor i gynorthwyo penderfyniadau Gweinidogion, pan oedd hynny'n briodol, ynghyd â chomisiynu ac ystyried ymarferion dysgu gwersi.

Cyflawni'r Rhaglen Frechu

Parodrwydd

13. Ar ddechrau'r pandemig, roedd bodolaeth rhaglen frechu brofedig, a oedd yn gweithredu ac yn cael ei harwain yn dda, o fudd i Gymru. Ynghyd â'i rhaglen frechu flynyddol rhag y fflw, defnyddiwyd y rhaglen mewn blynyddoedd cymharol ddiweddar ar gyfer rhaglenni brechu wedi'u targedu, megis rhaglen frechu'r Feirws Papiloma Dynol (HPV). Yn sgil y rhaglen hon a oedd eisoes yn bodoli, roedd gan Gymru hanes hir a llwyddiannus o ddosbarthu brechlynnau yng Nghymru. Diolch i'r wybodaeth a gasglwyd pan gafodd y rhaglen honno ei chreu a'i rhoi ar waith, roedd modd i Lywodraeth Cymru gynllunio a pharatoi ar gyfer materion ymarferol fel dosbarthu, paratoi'r gweithlu, cysylltu â chleifion a materion yn ymwneud ag anghydraddoldeb o ran brechlynnau.

14. Yn gynnar ym mis Ebrill 2020, aethpwyd ati i ystyried sut y gellid ehangu llwyddiannau'r rhaglen frechu bresennol yn sylweddol er mwyn sicrhau y gellid dosbarthu'r brechlyn yn effeithiol unwaith y byddai ar gael⁹. Er i'r brechlyn ddod ar gael yn gynt nag a ragwelwyd yn wreiddiol, roedd Cymru wedi paratoi'n dda i'w gyflwyno a dechreuodd roi brechiadau cyn gynted ag y daeth y brechlyn ar gael.

Darparu brechiadau

15. Nid oedd gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb rheoleiddiol, cyfrifoldeb prynu uwch na chapasiti ariannol i ymgymryd â chaffael ar wahân i Gymru. Pan nad oes pandemig, mae Llywodraeth y DU yn caffael brechlynnau eraill a weinyddir yn genedlaethol, fel y brechlyn fflw blyneddol. Roedd y system hon yn gweithio'n dda ac roedd manteision masnachol dibynnu ar bŵer prynu sylweddol Llywodraeth y DU yn amlwg. Felly, cytunodd Llywodraeth Cymru i'w chyfran ganlyniadol o gyllid brechlynnau aros gyda Thrysorlys y DU i ganiatáu i Lywodraeth y DU gynnal y broses gaffael ganolog honno ar ei rhan.
16. Er bod penderfyniad o'r fath yn debygol o fod yn briodol ar gyfer caffael brechlynnau mewn unrhyw sefyllfa fel pandemig yn y dyfodol, gellir dysgu gwersi o'r broses a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod perthnasol.
17. Gweithiodd y dull caffael ar y cyd yn arbennig o dda. Roedd modd i ymarfer caffael Llywodraeth y DU, drwy Dasglu Brechlynnau'r DU, archebu llawer o ddosau o frechlynnau, gan wasgaru archebion ar draws amryw o frechlynnau a oedd yn yr arfaeth. Roedd y cydweithrediad â Llywodraeth y DU yn hyn o beth yn gadarnhaol.
18. Fodd bynnag, cydnabyddir bod risgiau clir ynghlwm wrth ddibynnu ar gryfder perthnasau gwaith unigol, ar gyfer unrhyw sefyllfa yn y dyfodol, pe bai personél yn newid a / neu berthnasau o'r fath yn eisiau. Ni ddylai materion fel hyn ddibynnu ar y personoliaethau sydd yn y swyddi ar unrhyw adeg benodol. Byddai strwythurau a llinellau ymgysylltu ffurfiol wedi'u sefydlu'n gynnar yn sicrhau y gallai'r llywodraethau datganoledig gynllunio'n llawn ac yn briodol ar gyfer darparu brechlynnau, ni waeth pwy sydd yn y swyddi ar unrhyw adeg benodol.

⁹ Drakeford (datganiad Modiwl 4), paragraff 86 ymlaen - INQ000474420.

19. Maes arall i'w ystyried gan yr Ymchwiliad yw'r sail y rhennir cyflenwadau brechlynnau rhwng y pedair gwlad arni. O dan amgylchiadau'r pandemig wrth iddo fynd rhagddo, bu'n rhaid i benderfyniad ynghylch dyrannu cyflenwadau gael ei wneud yn gyflym ac ar sail hawdd ei deall. Yr unig opsiynau ar gael o dan yr amgylchiadau oedd rhannu cyflenwadau naill ai ar sail poblogaeth neu drwy gyfeirio at fformiwla Barnett, a hithau eisoes yn gyfarwydd i bob Llywodraeth fel y sail a ddefnyddir i gyfrifo grantiau bloc. Ond er mwyn sicrhau bod brechlynnau'n cyrraedd y rhai â'r angen mwyaf gyntaf, mae angen fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion i bennu sut i ddyrannu brechlynnau yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid oedd cyfle realistig i gyfrifo hyn, cytuno arno a'i weithredu yn yr amser a oedd ar gael. Nawr yw'r amser i ailedrych ar y mater hwn, i baratoi ar gyfer y pandemig nesaf.
20. O dan yr amgylchiadau, cymhwyswyd fformiwla Barnett. Fodd bynnag, creodd hyn y potensial ar gyfer diffyg cyflenwadau brechlynnau yng Nghymru yn ystod cyfnodau cynnar y broses o ddarparu brechlynnau gan fod gan Gymru gyfran lawer iawn mwy o'r boblogaeth hyn. Roedd pobl hyn yn rhan fawr o'r grwpiau blaenoriaeth cyntaf yr oedd angen iddynt gael y brechlyn gyntaf.
21. Er gofyn yn benodol i Lywodraeth y DU am i gyfran Cymru o gyflenwadau'r brechlynnau gael eu blaenwytho yn sgil realiti'r rhaglen darparu brechlynnau yng Nghymru¹⁰, nid oedd modd dod i gytundeb o'r fath ac ni wnaed darpariaeth i gyfran Cymru o gyflenwadau'r brechlynnau adlewyrchu anghenion poblogaeth Cymru.
22. Llwyddwyd i osgoi diffyg cyflenwadau diolch i ddyfeisgarwch y rhai yng ngwasanaeth gofal iechyd Cymru. Rhoddwyd mesurau penodol ar waith yng Nghymru i liniaru effaith yr anghydbwysedd rhwng maint y boblogaeth a'r brechlynnau a ddyrannwyd i Gymru. Ymysg y mesurau sylfaenol yn hyn o beth oedd y camau a gymerwyd i osgoi gwastraffu brechlynnau. Un o'r gweithredoedd arloesol penodol oedd darganfod sut i sicrhau'r nifer mwyaf posibl o ddosau fesul ffiol o'r brechlyn Pfizer-BioNTech yng Nghymru. O ganlyniad, roedd modd i frechwyr echdynnu chwe dos fesul ffiol, yn hytrach na'r pum dos a fwriadwyd yn wreiddiol, a chyflawni hyn ar raddfa eang. Diolch i ymdrechion o'r fath, llwyddwyd i osgoi unrhyw oedi o ran cyflwyno'r brechlyn yng Nghymru i'r rhai mwyaf agored i niwed yn y grwpiau blaenoriaeth cyntaf; rhywbeth a allai fod wedi digwydd fel arall gan na chafodd y brechlyn ei ddyrannu ar draws y pedair gwlad yn ôl angen.

¹⁰ Drakeford (datganiad Modiwl 4), paragraffau 53 a 112 - INQ000474420.

23. Yn ogystal, hwylusodd strwythur y GIG yng Nghymru ddull Cymru gyfan o gyflwyno'r brechlyn, gan sicrhau, pan oedd cyflenwadau'n gyfyngedig, fod modd rheoli a chynllunio'r dosbarthiad ar draws y saith bwrdd iechyd lleol yng Nghymru gan felly ddefnyddio stoc gyfyngedig yn effeithlon.
24. Fodd bynnag, at y dyfodol, mae angen i'r Ymchwiliad ystyried tegwch a phriodoldeb defnyddio fformiwla Barnett i bennu cyfran y boblogaeth o stoc brechlynnau'r DU gan nad yw'n ystyried maint cymharol y boblogaeth sydd â risg uwch yn y gwledydd gwahanol. Nid y wers i'w dysgu yma yw bod y problemau a grëwyd drwy beidio â dyrannu brechlynnau yn ôl angen wedi, mewn gwirionedd, ysgogi'r sector iechyd yng Nghymru i ddod o hyd i ddatrysiadau arloesol. Yn y dyfodol, gellid a dylid dyrannu brechlynnau yn ôl maint gwirioneddol y boblogaeth â risg uwch. Yn achos brechiadau Covid-19, rhoddwyd pwys mawr ar oedran wrth bennu risg Covid-19 a'r budd cyfatebol a fyddai'n deillio o frechu. Mae proffiliau oedran y boblogaeth ym mhob un o'r pedair gwlad ar gael, felly dylai fod yn bosibl ac yn ymarferol, yn y dyfodol, i ddyrannu brechlynnau yn ôl angen, yn seiliedig ar ddata oedran o leiaf¹¹.
25. Cyfrannodd ymdrech unigol ac ymdrech gyfunol, fel yr ymdrech a wnaed yn wyneb cyflenwad cyfyngedig o frechlynnau, at gyflawni'r rhaglen frechu yn llwyddiannus yng Nghymru. Diolch i fodel y GIG yng Nghymru, roedd modd arddel dull dosbarthu 'Tîm Cymru' ar gyfer Rhaglen Frechu Covid-19. O ganlyniad, cafwyd gwasanaeth ar gyfer Cymru gyfan a oedd yn cael ei gydlynw'n genedlaethol ond yn cael ei gyflwyno gan fyrddau iechyd lleol a oedd yn y sefyllfa orau i asesu'r seilwaith gofal iechyd lleol o ran cryfderau a gofynion, daearyddiaeth a phartneriaethau cymunedol. Sicrhawyd cysondeb o ran dosbarthu ar draws yr holl fyrddau iechyd lleol gan Fwrdd Brechu Covid-19 Cymru a ddiffiniodd fodolau darparu amrywiol. Roedd modd i bob bwrdd iechyd lleol ddiffinio nifer y modelau darparu a oedd yn ofynnol yn ôl demograffeg leol, a'r cymysgedd o fodolau darparu.
26. Roedd hyn yn cynnwys canolfannau brechu, yr oedd modd eu hamrywio o ran nifer y brechlynnau y gellid eu rhoi ac oriau agor mewn lleoliad penodol. Defnyddiwyd timau brechu symudol gyda cherbydau a brechwyr ag offer addas i ymweld â lleoliadau fel

¹¹ Rowlands - INQ000474558, Andrew Evans - INQ000474566.

cartrefi gofal, yr ystad ddiogel a chyfeiriadau unigol ar gyfer cleifion a oedd yn gaeth i'r tŷ neu mewn lleoliadau anghysbell. Rhoddwyd timau brechu iechyd galwedigaethol ar waith yn lleoliadau darparwyr y GIG i dargedu staff rheng flaen y GIG a gofal cymdeithasol.

27. Cynorthwywyd cyflymder a graddfa'r rhaglen frechu yng Nghymru yn ogystal gan allu'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddyroddi nifer o brotocolau cenedlaethol (y cyntaf ar 18 Rhagfyr 2020), yn dilyn diwygiadau a wnaed i Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012, gan ganiatáu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig a phobl benodol nad oeddent yn weithwyr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig weinyddu brechlyn Covid-19. Roedd y protocolau hyn yn caniatáu i weithwyr gofal iechyd nad oeddent wedi'u hawdurdodi i weinyddu meddyginiaethau, ac eithrio yn unol â chyfarwyddiadau ymarferydd priodol, weinyddu brechlynnau Covid-19 a'r fflw gyda hyfforddiant priodol a goruchwyliaeth glinigol. Roedd yr hyblygrwydd hwn i gynyddu'r gweithlu yn hanfodol i lwyddiant y rhaglen frechu yng Nghymru. Gwnaeth perthnasau gwaith agos â llywodraeth leol a'r trydydd sector gynyddu i'r eithaf nifer y lleoliadau a'r gwirfoddolwyr a oedd ar gael.
28. Gweithredodd Llywodraeth Cymru bolisi o 'adael neb ar ôl'. Roedd hyn yn cynnwys byrddau iechyd lleol yn mynd ati i gysylltu â'r rhai nad oeddent eto wedi cael eu brechiadau yng ngrwpiau blaenoriaeth 1 i 4, ar yr un pryd â dechrau rhoi apwyntiadau i'r rhai yng ngrwpiau 5 a 6. Pan oedd yn bosibl, defnyddiwyd sawl dull i sicrhau bod unigolion heb eu brechu yn cael cyfle i gael eu brechu. Cysylltwyd ag unigolion o leiaf deirgwaith gan gynnig apwyntiad brechu a defnyddiwyd canolfannau brechu galw i mewn pan nad oedd angen apwyntiad.
29. Gosododd Llywodraeth Cymru dargedau ar gyfer cyflwyno'r rhaglen frechu drwy gyhoeddi Strategaeth Frechu Genedlaethol Covid-19 (a'r diweddariadau iddi). Heblaw am gyfnod byr pan effeithiodd tywydd garw ar bresenoldeb pobl dros 80 oed ym mis Ionawr 2021, cyrhaeddwyd y targedau hyn. O ran y rhai a fethodd eu hapwyntiad o ganlyniad i'r tywydd, cafodd yr apwyntiadau hynny eu haildrefnu'n gyflym, a chynyddodd nifer y bobl a oedd wedi'u brechu yng Nghymru o 162,000 i 290,000 o bobl mewn wythnos yn unig¹².

¹² Drakeford (datganiad Modiwl 4), paragraffau 116-118 – INQ000474420.

30. Ar adeg cyhoeddi'r fersiwn wedi'i diweddarau o Gynllun Rheoli'r Coronafeirws gan Lywodraeth Cymru¹³ ar 19 Chwefror 2021, cadarnhawyd bod y nifer a oedd wedi'u brechu yn uchel iawn, gan ragori ar y targed o 80% a osodwyd ar gyfer y pedwar grŵp blaenoriaeth cyntaf, gyda rhai dros 90% hyd yn oed. Fodd bynnag, nid arweiniodd ffigurau o'r fath at laesu dwylo a pharhawyd i fynd i'r afael â phryderon ynghylch lefelau is o bobl wedi'u brechu mewn rhai grwpiau a chymunedau.

Cymhwysra, Blaenoriaethu a'r JCVI

31. Statws cyngor y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) yng Nghymru yw 'cynghori', ac felly mae angen cytundeb Gweinidogol ar ei gyfer. Mae'r Ymchwiliad wedi cael tystiolaeth gan y Gweinidogion Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd yn gyfrifol am y penderfyniadau unigol a wnaed drwy gydol y cyfnod perthnasol.

32. Mae'n bwysig nodi nad derbyn cyngor y JCVI yn unig oedd Llywodraeth Cymru. Roedd aelod cyfetholedig o Gymru ar y pwyllgor i roi arbenigedd ar weithredu rhaglenni imiwneiddio. Er nad oedd yr aelod hwn yn aelod â phleidlais ar y JCVI, llwyddodd i wneud cyfraniad gwerthfawr i'r drafodaeth gan alluogi i anghenion a safbwyntiau system frechu Cymru gael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau. Yn rhan gynnar y cyfnod perthnasol roedd pryderon bod trafodaethau mewn cyfarfodydd yn canolbwyntio'n bennaf ar roi cyngor yn Lloegr. Datblygodd cyfarfodydd wedi hynny i gynnwys ceisiadau i gynrychiolwyr o Gymru gyfrannu at y drafodaeth ¹⁴drwy gyflwyno safbwynt penodol i Gymru i'r Pwyllgor.

33. Cynhaliwyd cyfarfodydd yng Nghymru ymlaen llaw, a oedd yn cynnwys cydweithwyr polisi, clinigol, gweithredol a fferylliaeth, er mwyn sicrhau bod yr holl fuddiannau a safbwyntiau yn cael eu cynrychioli yng nghyfarfodydd y JCVI.

34. Ochr yn ochr â'r aelod cyfetholedig, roedd gan Lywodraeth Cymru hefyd uwch swyddog polisi yn bresennol ym mhob cyfarfod gyda statws sylwedydd. Roedd hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ystyried yn llawn yr hyn a drafodwyd ac a benderfynwyd yn y cyfarfodydd, gan alluogi ymateb yn gyflym heb orfod aros am adroddiadau ffurfiol ar benderfyniadau. Ers y cyfnod perthnasol, mae penodi aelod cyfetholedig o Gymru i'r JCVI

¹³ INQ000081858.

¹⁴ Rowlands (datganiad Modiwl 4), paragraff 379 - INQ000474558.

bellach wedi'i ffurfioli, ochr yn ochr â sylwedydd clinigol ychwanegol o lechyd Cyhoeddus Cymru a sylwedydd o Lywodraeth Cymru¹⁵.

35. Yn ogystal, ar brydiau byddai angen trafodaeth barhaus ar gyfer gwneud penderfyniadau anodd iawn. Un enghraifft o hyn oedd y penderfyniad i frechu pobl ifanc iach 12-15 oed. Roedd angen ymgysylltiad Prif Swyddogion Meddygol y pedair gwlad ar gyfer gwneud y penderfyniad hwn.
36. Roedd pob un o'r camau gweithredu hyn yn caniatáu perthynas fwy gweithredol ac ystyrlon gyda'r JCVI lle'r oedd Llywodraeth Cymru yn gallu dylanwadu ar y penderfyniadau a wnaed, ac ymateb yn gyflym.
37. Yn ogystal, ac er y mabwysiadwyd dull pedair gwlad yn dilyn cyngor o'r fath (ac na fu unrhyw achlysur pan ystyriwyd y dylid gwroddi wrth y cyngor), roedd elfen o hyblygrwydd gweithredol yn parhau wrth ei roi ar waith yng Nghymru er mwyn sicrhau bod y rhaglen frechu yn cyrraedd cymaint o bobl â phosibl, gan leihau gwastraff. Roedd y gallu i ddefnyddio'r hyblygrwydd hwn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ddehongli cyngor y JCVI yn gyffredinol, a sicrhau bod cymaint o apwyntiadau â phosibl yn cael eu llenwi a'u cwblhau. Arweiniodd hyn yn y pen draw at gyfradd effeithlonrwydd uchel iawn ac ychydig iawn o wastraff brechlyn.

Brechiad yn Amod Lleoli

38. Ceisiodd Llywodraeth Cymru greu sail 'ymddiriedaeth uchel' ar gyfer y camau yr oedd yn eu cymryd yng Nghymru yn ystod y cyfnod perthnasol. O ran y rhaglen frechu, roedd y gallu i sicrhau bod niferoedd uchel o bobl yn manteisio ar y brechlyn yn ddibynnol ar greu amgylchedd 'ymddiriedaeth uchel' o'r fath. Teimlwyd y byddai polisi o wneud brechu yn orfodol fel amod lleoli wedi tanseilio'r agwedd hon, ac o bosibl wedi peryglu'r llwyddiant a gafwyd wrth gyflwyno'r brechlynnau yn gyffredinol. Fodd bynnag¹⁶, ystyriwyd yn fanwl y gwahanol ffactorau sy'n cystadlu â'i gilydd o blaid ac yn erbyn gosod polisi o'r fath.
39. Roedd llawer o gysondeb yn nulliau gweithredu'r pedair gwlad ar faterion yn ymwneud â brechlynnau, ond ar y mater hwn roedd yr ystyriaethau perthnasol a'r data oedd yn gysylltiedig â gwneud penderfyniadau yn wahanol iawn rhwng Cymru a Lloegr. Roedd

¹⁵ Rowlands (datganiad Modiwl 4), paragraff 381 - INQ000474558.

¹⁶ Er enghraifft, Drakeford (datganiad Modiwl 4), paragraffau 155-179 - INQ000474420.

cyfraddau'r gweithwyr gofal cymdeithasol a phreswylwyr cartrefi gofal a oedd wedi manteisio ar frechlynnau yng Nghymru yn gyson ac yn sylweddol uwch na'r cyfraddau hynny yr oedd Gweithgor Gofal Cymdeithasol SAGE wedi'u nodi fel y cyfraddau angenrheidiol i ddarparu'r isafswm amddiffyniad rhag brigiadau pellach o achosion mewn cartrefi gofal i bobl hŷn. Yn unol â hynny, ni wnaed brechu yn amod lleoli yng Nghymru, ond gwnaed gwaith helaeth yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol i fynd i'r afael ag unrhyw amharodrwydd gan bobl i fanteisio ar y brechlyn ac i geisio cefnogi'r ymateb cadarnhaol o fewn y sector tuag at frechu gwirfoddol.

Tystysgrifau Brechu

40. Yn ystod y cyfnod perthnasol, ystyriwyd rhoi tystysgrifau brechu neu gynllun pasbort ar waith yng Nghymru, yn y cyd-destun rhyngwladol a domestig. Roedd y penderfyniad ynghylch a ddylid cyflwyno cynllun domestig yng Nghymru yn un a oedd angen ei gydbwyso'n ofalus. Unwaith eto, roedd y data ar y niferoedd a oedd wedi manteisio ar y brechlyn yng Nghymru yn wahanol i'r data yn Lloegr, lle'r oedd y cymhelliant ar gyfer cyflwyno tystysgrifau brechu domestig gorfodol yn gysylltiedig â'r angen i gynyddu nifer y bobl ifanc a oedd yn manteisio ar y brechlyn. Yng Nghymru, roedd nifer y bobl ifanc a oedd wedi manteisio ar y brechlyn yn uwch. Ond byddai'r penderfyniad i weithredu'r cynllun yn Lloegr yn arwain at oblygiadau trawsffiniol i fusnesau a dinasyddion Cymru.
41. Roedd y gwahaniaeth rhwng y cynllun tystysgrifau brechu gorfodol a gynigiwyd yn wreiddiol gan Lywodraeth y DU (cyn ei ohirio) a chynllun Pàs Covid y GIG a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn arbennig o bwysig o ran y pryderon moesegol a thegwch a godwyd. Roedd yn bwysig sicrhau nad oedd unrhyw gynllun a oedd yn cael ei gyflwyno yn creu rhwystr ar gyfer y rhai a oedd wedi gwrthod cael eu brechu ar sail feddygol neu ar sail berthnasol arall. Y penderfyniadau a wnaed yn y Cabinet ynglŷn â chyflwyno ac ehangu Pàs Covid y GIG oedd rhai o'r rhai anoddaf ymhlith y penderfyniadau y bu'n rhaid eu gwneud ynglŷn â brechu. Yn gyffredinol, croesawodd y cyhoedd yng Nghymru gyflwyniad y cynllun, a oedd yn rhoi lefel o hyder i'r rhai a oedd yn dechrau mynd i ddigwyddiadau ar raddfa fawr unwaith eto.¹⁷

Cydraddoldeb a Negeseuon Cyhoeddus

¹⁷ Drakeford (datganiad Modiwl 4), paragraffau 285-286 – INQ000474420.

42. Mae anghydraddoldebau iechyd, anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau eraill wedi bod yn ffocws allweddol i Lywodraethau olynol Cymru ers dechrau datganoli ym 1999, gyda'r nod o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy'r gyfraith yn flaenoriaeth gydol y cyfnod hwnnw. Er enghraifft, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn hyrwyddo cydraddoldeb fel amcan ar gyfer cymdeithas, ac nid cyfle cyfartal yn unig.
43. Golyga'r ffocws hwn fod dealltwriaeth gynnar Llywodraeth Cymru o Covid-19 wedi'i lywio gan y ddealltwriaeth fod pob brigiad eang o achosion o glefyd yn fwy tebygol o gael effaith anghymesur o andwyol ar y rhai sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol, neu'n dioddef o ryw gyflwr iechyd arall sy'n bodoli eisoes.¹⁸ O gyfnod cynnar y pandemig, roedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o dystiolaeth a oedd yn dod i'r amlwg ar effaith wahaniaethol y pandemig ar gymunedau agored i niwed a chymunedau heb eu gwasanaethu'n ddigonol, ac fe wnaeth weithredu ar y dystiolaeth honno. Mae modiwlau eraill eisoes wedi rhoi gwybod yn fanwl i'r Ymchwiliad am y gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru ar anghydraddoldebau yn gyffredinol drwy gydol y pandemig.
44. Sefydlwyd y Pwyllgor Brechu Teg ym mis Mawrth 2021, ac fe gynyddodd ei effaith a'i ddylanwad wrth i'r pandemig ddatblygu. Roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o grwpiau ymbarél, y grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, a sefydliadau'r trydydd sector, yn ogystal ag arbenigwyr o lechyd Cyhoeddus Cymru a'r GIG yng Nghymru i geisio deall yr hyn sy'n rhwystro grwpiau ymylol rhag manteisio ar y brechlyn, a gweithio i gael gwared ar y rhwystrau hynny. Cyflawnodd amryw o swyddogaethau: monitro a dadansoddi faint o bobl sy'n manteisio ar y brechlynnau yn ôl nodweddion gwarchodedig a grwpiau heb eu gwasanaethu'n ddigonol; ystyried ymchwil a gwybodaeth sy'n dod i'r amlwg, ac argymhell meysydd gwyliadwriaeth ac ymchwil ychwanegol ar annhegwch brechu; sefydlu a chynnal dolenni i alluogi rhannu gwybodaeth ac adnoddau rhwng grwpiau a sefydliadau sy'n gweithio i wella'r ddarpariaeth brechlynnau; a datblygu cynllun gweithredu i leihau annhegwch brechu.
45. Ar yr un pryd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r Strategaeth Brechu Teg¹⁹ gyda'r diben o roi cyngor i'r Bwrdd Rhaglen ar sut i sicrhau bod pawb yng Nghymru a oedd yn gymwys i

¹⁸ Drakeford (datganiad Modiwl 4), paragraff 27 – INQ000474420.

¹⁹ INQ000182538.

gael brechiad Covid-19 yn cael mynediad teg a chyfle teg i gael eu brechiad, trwy fynd i'r afael â'r rhwystrau i fanteisio ar y brechlyn sy'n cael effaith anghymesur ar y grwpiau poblogaeth heb eu gwasanaethu'n ddigonol.

46. Roedd y Strategaeth Frechu (a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021) hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd deall anghenion lleol, gyda modelau dosbarthu yn amrywio yn ôl bwrdd iechyd lleol. Nododd y Strategaeth Frechu yn glir bod yn rhaid i bob person gael mynediad teg at frechlynnau a chyfle cyfartal i gael eu brechu, heb rwystrau. Rhoddwyd cymorth ychwanegol a phwrpasol ac addasiadau rhesymol ar waith ar gyfer grwpiau heb eu gwasanaethu'n ddigonol ac unigolion anodd eu cyrraedd.
47. Defnyddiodd byrddau iechyd lleol fodelau allgymorth i sefydlu hybiau mewn cymunedau heb eu gwasanaethu'n ddigonol, gyda'r timau brechu symudol yn cael eu defnyddio'n ddiweddarach ar gyfer cymunedau anoddach eu cyrraedd i fynd â'r brechlyn i'r cymunedau hyn i wella ymgysylltiad a chynyddu hygyrchedd y brechlyn. Yn y pen draw, maent yn ceisio sicrhau bod cymunedau o'r fath yn elwa o'r amddiffyniad a roddir gan y brechlyn.
48. Rhoddodd Llywodraeth Cymru fesurau amrywiol ar waith i sicrhau hygyrchedd y brechlyn i'r cymunedau hynny, a'u hannog i fanteisio arno. Roedd mesurau o'r fath yn cynnwys penodi gweithwyr allgymorth ac ymgysylltu ym mhob bwrdd iechyd lleol i gefnogi'r gwaith ymgysylltu ac eirioli yn ymwneud â'r rhaglen frechu, a'r defnydd o 'hyrwyddwyr cymunedol' neu 'leisiau dibynadwy' sy'n cynnwys arweinwyr ffydd, arweinwyr cymunedol, ffigurau chwaraeon a diwylliannol, gweithwyr iechyd proffesiynol, academyddion a chymheiriaid grwpiau cymwys / grwpiau sy'n betrusgar i fanteisio ar y brechlyn mewn amryw o gymunedau. Yn ogystal â'r Pwyllgor Brechu Teg, sefydlwyd gweithgor "DNA" (did not attend) i dargedu'n benodol y mater o fanteisio ar frechlynnau, a rhoi camau gweithredu ar waith.
49. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddigwyddiadau penodol hefyd gyda'r bwriad o dargedu'r cymunedau anoddach eu cyrraedd neu'r rhai a oedd yn betrusgar i fanteisio ar frechlynnau. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfod bord gron ar-lein ar gyfer brechu i roi cyfle i gynrychiolwyr sefydliadau ffydd amlddiwylliannol, sefydliadau cymunedol a sefydliadau busnes o bob rhan o Gymru i ofyn cwestiynau a chlywed gan banel o arbenigwyr.

50. Mae'r Ymchwiliad wedi cael datganiad yn y Modiwl hwn gan Dr Heather Payne, a gadeiriodd y Grŵp Cynghori ar Faterion Moesol a Moesegol Covid-19 yng Nghymru, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2020. Daeth i'r amlwg yn gynnar yn y pandemig mai dim ond Lloegr yr oedd Grŵp Cynghori ar Faterion Moesol a Moesegol y DU gyfan yn gallu ei wasanaethu'n effeithiol, gan nad oedd yn mynd i'r afael â gwahanol ofynion Cymru a'i gwahanol fframweithiau deddfwriaethol. Rhoddodd y grŵp a oedd yn canolbwyntio ar Gymru gyngor i gynorthwyo gyda darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ar ystyriaethau tegwch, moesol, moesegol, diwylliannol a ffydd yn ymwneud â darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol. Cafodd swyddogion polisi o fewn Llywodraeth Cymru eu hannog i gyflwyno cynigion polisi i'r grŵp i'w dadansoddi ac fel cyngor, er mwyn cwblhau polisiau yn dilyn adborth gan y grŵp, ac fe wnaethant hyn yn rheolaidd. Yn ogystal ag arweinwyr polisi, gofynnodd Bwrdd Brechu Covid-19 Cymru, ac yn ddiweddarach Bwrdd Rhaglen Frechu Covid-19 Cymru, i'r grŵp roi cyngor ar faterion yn ymwneud â'r brechlyn.
51. Roedd camwybodaeth am y brechlyn yn bryder ac o ganlyniad fe'i nodwyd fel thema allweddol yng Nghynllun Gweithredu Tegwch Cymru Gyfan gan wneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo gwybodaeth gywir i'r cyhoedd yng Nghymru, gan gynnwys sefydlu Grŵp Ymgysylltu â'r Gymuned i weithio gydag arweinwyr a sefydliadau cymunedol sy'n cynrychioli cymunedau penodol.
52. Roedd ymddiriedaeth y cyhoedd yng Nghymru yn Llywodraeth Cymru yn gymharol uchel, a oedd yn golygu bod y cyhoedd yn ymateb yn gyffredinol i'w negeseuon cyhoeddus ar faterion yn ymwneud â'r brechlyn a'u bod yn cefnogi mesurau Llywodraeth Cymru ar y cyfan.

Diogelwch y Brechlynnau

53. Roedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol iawn o'r angen i sicrhau bod pryderon ynghylch diogelwch y brechlynnau'n cael eu monitro a'u cymryd o ddifrif. Roedd hi'n bwysig bod pobl yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus am y brechlyn yn seiliedig ar wybodaeth gywir a dibynadwy, yn enwedig wrth i wybodaeth am y brechlyn ddatblygu a phan argymhellwyd y dylai carfannau newydd fanteisio arno – gan gynnwys plant. Gweithiodd Llywodraeth Cymru gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r GIG yng Nghymru i sicrhau bod yr wybodaeth honno ar gael i'r cyhoedd.

54. Roedd datganiadau gan Weinidogion yn bwysig yn hyn o beth. Roedd tryloywder yn rhan sylfaenol o'r negeseuon i'r cyhoedd gyda chynghor y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu a'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd yn cael eu cyfathrebu a'u cyfeirio at y cyhoedd, gan amlinellu'r risgiau a'r manteision o frechu.

Therapiwteg

55. Mae pwerau ynghylch awdurdodi treialon clinigol ar gyfer meddyginiaethau newydd, a'u trwyddedu, yn fater a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU ac yn cael eu cynnal gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd. Yn unol â hynny, ni wnaeth Llywodraeth Cymru chwarae rhan uniongyrchol wrth ganfod na datblygu triniaeth ar gyfer Covid-19 na meddyginiaethau proffylactig ar ei gyfer. Prif rôl Llywodraeth Cymru oedd sicrhau bod therapiwteg newydd a rhai wedi'u haddasu at ddibenion gwahanol, ar gael ac yn cael eu dosbarthu yn rheolaidd i drin Covid-19. Gwnaeth Cymru gyfraniadau sylweddol i waith treialon clinigol. Gwnaed yr holl benderfyniadau ynghylch cymhwystra ar gyfer therapiwteg ar lefel y DU²⁰.

Dysgu o brofiad o'r pandemig

56. O safbwynt profiadau o'r pandemig, cynhaliodd Llywodraeth Cymru asesiad o'r blaenoriaethau a'r disgwyliadau ar gyfer brechlynnau yn y dyfodol a chyhoeddodd y Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol ar 25 Hydref 2022²¹. Bwriad y fframwaith yw paratoi'r ffordd ar gyfer trawsnewid y rhaglen frechu yng Nghymru, gan alluogi darparu rhaglenni brechu ac imiwneiddio enghreifftiol sy'n canolbwyntio ar degwch ac annog unigolion i fanteisio ar y brechlyn. Ei nod yw ei gwneud yn haws i bobl wybod pa frechiadau y maent yn gymwys i'w cael, a sut gallant gael gafael arnynt, gan ddefnyddio cofnodion brechu digidol. Bydd dull wedi'i dargedu i sicrhau hygyrchedd brechlynnau. Bydd gofyn i fyrdau iechyd lleol lunio strategaeth brechu teg a rhaglen waith sy'n cymhwyso egwyddorion y fframwaith. Er mwyn sicrhau bod brechu teg yn cael ei ystyried ar bob cam ac i ddiogelu'r egwyddor o "adael neb ar ôl," mae'r Pwyllgor Brechu Teg wedi trosglwyddo i'r trefniadau llywodraethu newydd ac mae ganddo gylch gwaith estynedig ar gyfer pob rhaglen frechu.²²

²⁰ Evans (datganiad M4) - INQ000474566.

²¹ INQ000401577.

²² Morgan (datganiad M4), paragraffau 246-247 - INQ000474509, INQ000489440, INQ000489441.

57. Mae dyrannu brechlynnau yn deg rhwng y pedair gwlad yn brif beth i'w ystyried pe bai pandemig yn y dyfodol. Dylid dyrannu'r cyflenwad o'r brechlyn rhwng y pedair gwlad yn ôl yr angen, yn seiliedig ar ddata sydd ar gael o ran maint y boblogaeth sy'n wynebu risg ym mhob un o'r pedair gwlad.
58. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gwersi i'w dysgu, nid yn unig o ran yr hyn aeth yn dda wrth gyflwyno'r brechlyn, ond hefyd o ran yr hyn y gellid bod wedi'i wneud yn well. Yn ogystal ag ystyried y llwyddiannau hynny a phenderfynu beth dylid ei gadw mewn unrhyw system sy'n sicrhau parodrwydd ar gyfer pandemigau yn y dyfodol, mae Llywodraeth Cymru yn croesawu dadansoddiad yr Ymchwiliad o'r gwersi sydd i'w dysgu a'r gwelliannau y gellir eu gwneud i sicrhau llwyddiant unrhyw raglen frechu genedlaethol a fyddai'n ofynnol pe bai pandemig arall yn y dyfodol.

Dyddiad 12 Rhagfyr 2024